

papur



priordy



**ARGLWYDD IESU, DYSG IM GERDDED
DRWY Y BYD YN ÔL DY DROED**

Elfed – Caneuon Ffydd 710

*Dewiswyd gan Olive Lloyd
Gweler y rheswm am ei dewis y tu mewn*

**Rhifyn 315
PAPUR HYDREF 2018**

Gair gan 'ferched' ein Gweinidog!

Saib i'w mam

Saib bach i mi y mis hwn gyda diolch i Elin a Sara. Ymddangosodd erthygl yr un gan y naill a'r llall ohonynt yn *Y Tyst* a *Cristion* yn ddiweddar. Dyma rannu'r erthyglau gyda darllenwyr *Papur Priordy*.



Sara Llwyd yn sôn am...

#Souledout18

Dyma'r tro cyntaf i mi fynychu *Souled Out*, ond ar ôl pum niwrnod mor llawen a bendithiol, rwy'n sicr nad hwn fydd fy nhro olaf! Roedd yn bleser bod yng nghwmni criw mawr o Gristnogion ifanc o Gymru gyfan, rhai roeddwn yn eu 'nabod eisioes a llawer iawn o wynebau newydd, nifer ohonynt wedi dod yn ffrindiau da i mi yn ystod yr wythnos.



Thema'r Wythnos oedd '*Cyfarfod Iesu*', a chawsom ein harwain mewn addoliad bywiog a bendithiol gan Owain Edwards, Andy Ollerton, Rhys Llwyd, Steve Dyer a Cath Woolridge. Roedd yr addoliad yn amrywiol a hwyliog ac yn gyfrwng i ni ddysgu mwy am berson rhyfeddol Iesu a dyfynhau ein hadnabyddiaeth ohono.

Ymhlith y pethau a adawodd yr argraff fwyaf arnaf oedd y seminar i ferched gan Cath Woolridge yn ein hanog i gamu ymlaen heb adael i 'dyrrau' ein bywydau ein dal yn ôl; seminar yn trafod thema sy'n hynod o bwysig ymhlith yr ifanc heddiw, sef 'lechydd meddwl' gan Siân Wyn Rees ac Owain Edwards, a chyfle i ymuno mewn profiad a oedd yn newydd i mi sef 'Gweddi pop-up' - gweddio mewn amryw o ffurf ymarferol a chreadigol. Roedd y plethiad hwn o sesiynau'n brofiad adeiladol ac emosiynol. Roeddwn yn gwerthfawrogi amrywiaeth y

profiadau newydd hyn yn fawr iawn. Rhag i neb feddwl bod y cwbl yn digwydd o fewn muriau

Coleg Y Bala, mae'n werth nodi bod y dref ei hun, siŵr o fod, yn ymwybodol bod *Souled Out* yn cael ei gynnal oherwydd bod y seminarau'n digwydd mewn amryw o leoliadau, gan gynnwys festri capel, Neuadd Buddug a thafarn leol. Hyfryd oedd gweld criwiau o bobl ifanc yn cerdded o un lleoliad i'r llall yn y dref.

Yr hyn oedd yn wych am yr wythnos oedd bod nifer o weithgareddau cymdeithasol a hwyliog wedi'u gweu i'r rhaglen gyfan. Cefais gyfle i ymuno yn niwrnod 'Hwyl y Sul' gyda'i *inflatables*, Caffi Acwstig gyda'r hwyr, padlfyrddio ar Llyn Tegid, disgo a thwrnament Dodgeball. Yn ogystal a hyn i gyd, roeddwn yn gwerthfawrogi ambell egwyl a chyfle i ymlacio yng nghwmni ffrindiau.

Bu'r wythnos gyfan yn gyfle i fod ymhlith pobl mewn awyrgylch cymdeithasol ac addolgar a oedd, fel minnau, yn awyddus i ddysgu mwy am Iesu a thyfu ac aeddfedu yn y Ffydd.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb am weithio mor galed i drefnu'r wythnos. Os nad ydych chi wedi bod i *Souled Out*, beth am ymuno â ni'r flwyddyn nesa? Rydw i'n edrych ymlaen yn barod!

(o'r Tyst. Wythnosolyn Undeb yr Annibynwyr)

Elin Wyn yn sôn am...

‘O’r fesen, derwen a dŷ’.

Mae chwedl y Dewin Myrddin am yr hen goeden dderwen, a arferai sefyll y tu allan i Gapel Y Priordy yng Nghaerfyrddin, a phroffwydoliaeth y Dewin y byddai'r dref yn sefyll tra bo'r goeden hynafol yn sefyll, ond y byddai'n boddi pe bai'n syrthio, wedi cydio yn nychymyg cenedlaethau o blant a fagwyd yn y dref hynafol hon, a minnau yn eu plith.



Er nad yw'r goeden yn sefyll mwyach, a Chaerfyrddin heb foddi(!), mae'r cof am chwedl yr hen dderwen yn cael ei chadw'n fyw gan amryw o gyfeiriadau ati yn y dref. Mae Lôn yr Hen Dderwen yn ein hatgoffa o safle'r goeden tra bo Tafarn yr Hen Dderwen yn gyrchfan poblogaidd i drigolion y dref. Pan fyddaf yn dod adref yn achlysurol ar ymweliad o'r Brifysgol, mae cerflun haearn fodern o goeden dderwen

yn fy nghroesawu ger un o brif gylchfannau'r dref. Rhoddodd chwedl yr Hen Dderwen enw naturiol i'r ysgol gynradd Gymraeg y bûm yn ei mynychu, sef Ysgol Y Dderwen, a'i harwyddair '*O'r fesen, derwen a dŷf.*'

Thema amlwg.

Gan ein bod wedi'n boddi yn hanes chwedl Myrddin, mae'r syniad o goeden yn tyfu ac yn datblygu wedi bod yn thema amlwg drwy fy magwraeth. Thema awgrymog iawn y gellir ei chyffelybu i ddatblyglad unigolyn.

Fe fyddai'n ddigon hawdd i unrhyw goeden, wedi bwrw'i gwreiddiau, dyfu'n syth i fyny, ond gwyddom ba mor bwysig yw gadael i'r goeden ledi'i changhennau. Tra ydw i'n gwerthfawrogi'n fawr wreiddiau fy mywyd, cefais fy annog hefyd i fanteisio ar bob cyfle i dyfu canghennau newydd a'u cyfeirio i wahanol gyfeiriadau er mwyn i goeden fy mywyd ddatblygu'n gryf ac iach, estyn allan a magu cymaint o brofiadau newydd â phosib.

Wedi i'r fesen grefyddol blannu'i hun yn fy nghalon a chael ei meithrin i flaguro drwy amryw o ffyrdd, gan gynnwys cymdeithas eglwys, cyrsiau TGAU a Lefel A Addysg Grefyddol, datblygodd yn flaguryn diddordeb gwirioneddol yn y maes. Tyfodd ohoni gangen newydd yn fy mywyd a'm harweiniodd at astudio gradd mewn Diwinyddiaeth a Chrefydd ym Mhrifysgol Birmingham, mewn Adran sydd ag iddi enw rhagorol yn rhyng-genedlaethol am astudio crefyddau amrywiol yn y byd cyfoes, gan gynnwys diwinyddiaeth rhyngddiwylliannol, astudiaethau testunol, astudiaethau pentecostal a charismatig, cysylltiadau rhyng-grefyddol, astudiaethau Islamaidd ac astudiaethau'r Crynwyr.

Dinas aml-ddiwylliannol

Mae astudio Diwinyddiaeth yn un o'r dinasoedd mwyaf aml-ddiwylliannol ym Mhrydain yn gyfrwng i ddatblygu fy niddordeb yn y maes, ac annog blagur newydd i dyfu'n ganghennau o ddiddordeb mewn pynciau crefyddol nad oeddwn wedi'u hastudio erioed o'r blaen. Mae dod â meddwl a barn Gymreig i drafodaethau'n agoriad llygad i ambell un o'm cydfyfyrwyr nad ydynt yn medru amgyffred o gwbl ein diwylliant ni fel Cenedl. Wedi dweud hynny, mae gwrandao ar eraill o grefyddau gwahanol yn cyfrannu i drafodaethau mewn seminarau'n brofiad gwerthfawr i mi hefyd, ac yn sicr yn bwydo cangen fy ngwybodaeth am gefndiroedd ethnig eraill.

Gwna hyn i mi sylweddoli bod mesen ffydd a blennir yng nghalon

unigolyn yn medru tyfu i fod yn bob math o goed. Wedi'r cwbl, nid yr un fath o goed a welir yn tyfu mewn coedwig, ond amrywiaeth ohonynt yn cyd-fyw, yn cyd-dynnu ac yn cyd-gysgodi.

O'r fesen, derwen a dŷf.' Pa le bynnag y bydd fy ngyrfa'n fy arwain, fe fydd arwyddair Ysgol Y Dderwen yn dod gyda mi i bob man. Ond rhaid bod yn amyneddgar, a chofio bob amser ei bod yn cymryd blynyddoedd mawr i'r fesen dyfu'n dderwen.

(O Cristion. Medi/Hydref 2018)

Gweddïwn

Am dy ffyddlondeb
i genedlaethau fu'n dy ddilyn,
rhow'n ddiolch i ti.

Am dy amynedd
gyda'r rhai ohonom sy'n dy siomi,
rhow'n ddiolch i ti.

Am dy ras,
a roir yn rhad i bawb ddaw atat,
rhow'n ddiolch i ti.

Am dy gariad,
sy'n ein gorfodi i'th addoli,
rhow'n ddiolch i ti,

Amen.

(Gweddi o *Ei Orsedd Rasol Ef Cyfrol 1*. Addasiad Cymraeg gan Dewi Myrddin Hughes)



DARLLENIADAU

Mis Gorffennaf	Darlleniad
Wythnos 1	Philipiaid 2: 1-13
Wythnos 2	Philipiaid 3: 4b-14
Wythnos 3	Philipiaid 4 1-9
Wythnos 4	Mathew 22: 15-22

Papur Priordy'n dod i adnabod

GWESTAI'N GŴYL DDIOLCHGARWCH

ARFON JONES
beibl.net



PP: Rydych yn frodor o Ddyffryn Clodfawr Clwyd. Soniwch ychydig am y dylanwadau cynnar.

AJ: O Gellioedd, ger Llangwm yn wreiddiol, ond symudodd y teulu i Ddyffryn Clwyd pan o'n i tua 7 mlwydd oed. Roeddwn yn byw ar ffarm fechan 10 erw ar ochr Hiraethog i'r dyffryn ac yn edrych allan bob bore ar ogoniant y Moelydd gyferbyn. Roedd y teulu yn addoli yng Nghapel bach Y Glyn, ar y ffordd gefn o Lanrhaeadr yng Nghinmeirch i Ddinbych. Fi ydy'r hynaf o bedwar o blant.

PP: Rydych yn hoff iawn o gerddoriaeth ac yn raddedig yn y pwnc ond heb ddilyn gyrfa yn y byd cerddorol ychwaith.

AJ: Ro'n i'n mynd i Ysgol Ramadeg Dinbych (trodd yn Ysgol Uwchradd ddiwedd y 60au). Y bwriad ers yn 15 oed oedd dilyn gyrfa gerddorol. Es i Goleg y Brifysgol Bangor i astudio Cerddoriaeth dan William Mathias, ennill gradd B.Mus a bwriadu mynd yn athro soddgrwth (cello).

PP: Sut brofiad oedd arallgyfeirio ac astudio ar gyfer gradd mewn diwinyddiaeth?

AJ: Gorfodaeth! Roeddwn wedi graddio, ond yn fy mlwyddyn olaf yn yr Adran Gerdd wedi dechrau dioddef o epilepsi, ac yn cael ffitiau pur ddifrifol yn eitha rheolaidd. Methu cael swydd am resymau iechyd, ac yn ansicr beth fyddai'r cam nesaf. Penderfynu yn y diwedd aros ymlaen yn y coleg i ddilyn gradd mewn diwinyddiaeth. Wrth edrych yn ôl, mae rhywun yn gweld llaw Duw tu ôl i'r cwbl.

PP: Mae'r Gymraeg yn golygu llawer i chi, Buoch chi'n flaenllaw ym mrwydr yr iaith, gan dreulio cyfnodau byr yn y carchar. Ydych chi'n parhau i fod yn ffyddiog yn nyfodol yr iaith?

AJ: Rhaid i mi gyfaddef mai pendilio o obaith i anobaith ydw i. Mae'r Gymraeg wedi ennill statws a pharch nad oedd ganddi yn y 70au yn

sicr. Ond falle fod cymaint o her ag erioed. Fy ofn mawr ydy i'r Gymraeg wanio fel iaith gymunedol naturiol tra'n ennill tir fel iaith addysg. Un o'r rhesymau yr es i ati i weithio ar beibl.net oedd fy mod yn gweld gymaint o'r to ifanc yn ein heglwysi yn fwy cyfforddus gyda Beiblau Saesneg "haws i'w deall".

PP: Fe dreulioch chi gyfnod prysur iawn fel Swyddog leuenctid gyda'r Annibynwyr. Tybed beth oedd yn rhoi'r pleser mwyaf i chi yn y gwaith hwn?

AJ: Roedd fy nghyfnod gyda Mudiad leuenctid yr Annibynwyr yn gyfnod cyffrous iawn i mi. Roeddwn yn ddi-briod ar y pryd, ac yn rhydd i deithio i bob cornel o Gymru a dod i adnabod cymaint o bobl ifanc. Roedd y weledigaeth o ddarparu adnoddau newydd fyddai'n tanio dychymyg pobl ifanc yn fy ngyrru yn fy mlaen. Ond mae'n siŵr mai'r hyn oedd yn rhoi'r pleser mwyaf oedd cyfarfod gyda phobl ifanc a rhannu'r newyddion da gyda nhw, a mynd a chriwiau i gynadleddau Cristnogol blaengar.

PP: Rydych wedi bod yn Swyddog Maes Mudiad Gobaith i Gymru ers ei sefydlu ym 1999. Dywedwch ychydig wrthym am y Mudiad a'ch dyletswyddau arbennig chi.

AJ: Bues i'n gwasanaethu fel Ysgrifennydd Cyffredinol y Cynghrair Efengylaidd am ddeg mlynedd, a phriodi yn y cyfnod hwnnw hefyd. Ond eglwysi Saesneg oedd yn cefnogi'r gwaith yn bennaf, a chefais fy hun yn pregethu mwy yn y Saesneg nag yn y Gymraeg. Roedd yn ffrainc aruthrol, ac wedi ehangu fy ngorwelion, ond roedd gen i faich dros yr eglwysi Cymraeg. Felly sefydlwyd gig (Gobaith i Gymru) i geisio gwasanaethu'r eglwysi Cymraeg a pharatoi adnoddau fyddai'n eu helpu yn eu cenhadaeth. Dw i'n hynod ddiolchgar i'r bobl hynny sydd wedi cefnogi'r gwaith ar hyd y blynyddoedd.

PP: Fe gyfunwch, mae'n siŵr, ei bod yn bwysig i'r eglwys ddefnyddio'r chwyldro sy'n digwydd ar hyn o bryd yn y byd digidol. Eich campwaith, yn ddi-os, yw beibl.net a gallwn ei osod ar ein ffôn symudol - iPhone, Android, Y Fwyaren a ffonau symudol eraill sy'n defnyddio Java. Ydych chi'n hapus â'r ymateb hyd yn hyn?

AJ: Mae'r ymateb i beibl.net wedi bod yn syfrdanol. Gwelediaeth



ddigidol oedd beibl.net (fel mae'r enw'n awgrymu!) Roeddwn yn teimlo fod rhaid i'r eglwysi ddeffro i'r ffaith ein bod yn byw yn yr 21ain ganrif. Mae'r defnydd o'r wefan a'r holl adnoddau sydd arni, ac o dudalennau Facebook a Twitter, Ap Beibl, ac yn y blaen yn galonogol dros ben. Ond yr her sy'n ein hwynebu ydy fod technoleg yn datblygu'n gyson ... ac yn ddrrud iawn i'w gynnal. Roedd yn rhyfedd iawn gen i fod cymaint o alw am argraffu beibl.net – nid dyna oedd y bwriad, ond mae'n amlwg fod yna'n dal alw am lyfrau mae'n rhaid talu amdany'n nhw er gwaetha'r ffaith fod yr un adnoddau ar gael yn rhad ac am ddim ar ffôn a chyfrifiadur!

PP: Rydych yn perthyn i'r traddodiad Efengylaidd. Mae'ch gwreiddiau gyda'r Presbyteriaid, rydych wedi gweithio i'r Cynghrair Efengylaidd a'r Annibynwyr, buoch yn efenglydd yn y Canolbarth ac yng Ngwynedd, yn arwain eglwys am gyfnod yn India ac rydych yn awr yn aelod yng Nghapel Annibynnol Ebeneser, Caerdydd. Chi'n swnio'n berson eciwmenaidd iawn?!

AJ: Ystyr y gair efengyl ydy 'newyddion da'. Efengylaidd i mi ydy credu'r newyddion da hwnnw ac ymateb i her a galwad Iesu Grist ar fywyd. Cafodd fy mywyd ei chwyldroi pan gefais dröedigaeth dan weinidogaeth y Parch Arthur Jones yn Nyffryn Clwyd. Ron i'n fachgen crefyddol iawn cyn hynny, ond roedd dod i nabod Iesu Grist yn brofiad gwfreiddiol. Dw i'n dal i ddysgu, ac wedi cyfarfod chwiorydd a brodyr yn y ffydd o draddodiadau amrywiol iawn. Mae yna rai pethau am fywyd, dysgeidiaeth, marwolaeth ac atgyfodiad Iesu Grist na allwn ollwng gafael ynddyn nhw. Nid 'pic'n'mix' ydy'r newyddion da, ond ar y llaw arall rydyn ni i gyd ar daith, a Duw sy'n nabod y galon.

PP: Allwn ni ddim peidio â sylw fod mwy o fywyd a thwf yn gyffredinol yn ein capeli Saesneg nag yn ein capeli Cymraeg yng Nghymru'r dyddiau hyn. Beth yw'r rhesymau am hyn yn eich barn chi?

AJ: Cwestiwn mawr, a does dim ateb syml. Dw i'n credu fod yr eglwysi sy'n tyfu yn tueddu i fod yn fwy efengylaidd a charismataidd. Maen nhw hefyd yn aml yn fwy blaengar a chyfoes yn eu haddoliad. Rydyn ni Gymry Cymraeg yn gallu bod yn llawer rhy ofnus ac amddiffynnol o'n traddodiadau (a'n hadeiladau!). Dw i'n awyddus iawn i'n gweld ni'n gafael o'r newydd yn yr hyn sydd wir yn bwysig – perthynas gyda Iesu Grist, bod yn agored i ddylanwad yr Ysbryd Glân, ail-ddarganfod pwysigrwydd gweddi a chyd-weddio, parodrwydd i efengylu a rhannu ein ffydd, a chodi croes wrth wasanaethu eraill.

PP: Rydych yn briod â Rachel (merch o Ddwyrain Llundain sydd wedi dysgu Cymraeg) ac yn dad i dri o blant, Carys. Seren a Ryan. Mae'r cwlwm teuluol yn bwysig i chi, siŵr o fod.

AJ: Hynod bwysig. Ond byddwn yn dweud mai un wedd ar hynny ydy fod teulu'r eglwys yr un mor bwysig. Mae'n cymdeithas ni yn unigolyddol iawn – pawb drosto'i hun – ac mae'r unigolyddiaeth yna yn gallu bod yn ddylanwad negyddol ar ein dealltwriaeth o deulu hefyd. Mae yna ryw duedd faterol i wneud yn siŵr ein bod yn gofalu mai ein teulu ni sy'n dod gyntaf. Mewn byd anghenus, byddwn i am weld teuluoedd sy'n rhoi blaenoriaeth i ofalu am eraill – y tlawd, yr anghenus, a'r amgylchfyd.

PP: Mae gennych yr enw o fod yn weithiwr cydwybodol a chaled iawn. Ond fe gewch ychydig o amser hamdden o bryd i'w gilydd, gobeithio! Sut byddwch chi'n hoffi ymlacio?

AJ: Cerdded a beicio!

PP: Ac un cwestiwn arall i gloi, os gwelwch yn dda. A allwch chi gynnig gair o galondid i ni Gristnogion yng Nghymru ar drothwy trydydd degawd yr unfed ganrif ar hugain?

AJ: “Dw i'n gweddïo ... y bydd Duw yn rhoi nerth mewnol i chi drwy roi ei Ysbryd Glân i chi. Dw i'n gweddïo hefyd y bydd y Meseia ei hun yn gwneud ei gartref yn eich calonnau chi wrth i chi ymddiried ynddo fe. Dw i am i'w gariad e fod wrth wraidd popeth dych chi'n ei wneud – dyna'r sylfaen i adeiladu arni! Dw i am i chi, a phobl Dduw i gyd, ddeall mor aruthrol fawr ydy cariad y Meseia – mae'n lletach, yn hirach, yn uwch ac yn ddyfnach na dim byd arall! Dw i am i chi brofi y cariad hwnnw sy'n llawer rhy fawr i'w brofi yn llawn, er mwyn i chi gael eich llenwi â'r cwbl sydd gan Dduw ar eich cyfer. Clod iddo! Mae'n gwneud llawer iawn mwy na dim y bydden ni'n mentro gofyn amdano na hyd yn oed yn gallu ei ddychmygu! Dylen ni sydd yn yr eglwys ac wedi'n huno gyda'r Meseia Iesu roi clod iddo am byth bythoedd! Amen.
(Effesiaid 3:16-19)

Llawer iawn o ddiolch i chi am ateb y cwestiynau ac edrychwn ymlaen at eich croesawu i'n Gŵyl Ddiolchgarwch

GŴYL MIRI MEDI



DIWRNOD HEDDWCH RHYNGWLADOL Y CENHEDLOEDD UNEDIG

21 Medi 2018

Yng Nghaerdydd

Tudur Dylan Jones yn y Gynhadleth Hanes Heddwch

Ers blynyddoedd bellach mae tref Caerfyrddin wedi nodi Diwrnod Rhyngwladol Heddwch trwy godi'r faner heddwch yn y dref. Eleni bu digwyddiad nodedig arall yng Nghaerdydd wrth i Gymru groesawu'r Gynhadledd Hanes Heddwch am y tro cyntaf.

Roedd yn rhan o gyfres flynyddol o gynadleddau a gynhaliwyd yn y gorffennol mewn dinasoedd megis Manceinion, Llundain a Leeds. Ymhlith y darlithoedd cafwyd sesiynau am wrthwynebwyr cydwybodol, cyfraniad menywod yn yr ugeinfed ganrif, safiad llenorion a chelfyddyd cyhoeddus. Lansiodd Dr Aled Eirug ei lyfr *Gwrthwynebwyr Cydwybodol yn y Rhyfel Mawr* (Gwasg Carreg Gwalch) Cawn gyfle i glywed Aled Eirug yn trafod y gyfrol yma yn y Priorddy y mis hwn. Cafwyd arweiniad gan Jon Gower ar hyd rhai o lwybrau heddwch Caerdydd gan ddilyn y llyfryn difyr *Heddwch yn y Ddinas*, llyfryn sydd wedi'i ysbrydoli gan lyfr tebyg yn olrhain hanes heddwch Caerfyrddin.

Hyfryd oedd cael cwmni Bruce Kent ymhlith eraill, un sydd wedi gweithio'n ddiflino dros heddwch a diarfogi Niwclear dros ddegawdau. Nos Wener, ar ôl i Bruce Kent godi'r faner heddwch yng ngardd y Deml Heddwch, cynhaliwyd *Cyngerdd Heddwch* yn y Tabernacl, Yr Ais, gyda dau o gorau mwyaf disglair Cymru, Côrddydd a Chôr Heol y March, ynghyd â'r feiolinydd nodedig Charlie Lovell-Jones.



Cafwyd cyflwyniad cofiadwy gan Siwan Dafydd, Llandeilo ar hanes

Neges Ewyls Da yr Urdd, pwnc sydd o ddiddordeb mawr i ni yng Nghaerfyrddin gyda'r cysylltiad amlwg gyda sylfaenydd y Neges, sef y Parch Gwilym Davies.

Braf oedd clywed hefyd am gyfraniad aruthrol y merched a orymdeithiodd o Gaerdydd i Gomin Greenham, a dechrau'r gwersyll a barhaodd am flynyddoedd. Hefyd clywyd am ferched o Gymru a aeth â deiseb â miloedd o enwau arni i America i geisio heddych rhwng gwledydd.

Llun: Bruce Kent yn annerch y gynhadledd

Yng Nghaerfyrddin

Codwyd y Faner Heddych ar y diwrnod pwysig hwn unwaith eto eleni y tu allan i Neuadd San Pedr gan y Cyngorydd Emlyn Schiavone, Maer ein Tref..

Roedd y croeso, y cyflwyno a'r diolchiadau yng ngofal y Parchedig Peter Cutts. Cafwyd datganiad o *O nefol addfwyn oen* gan Gôr Merched Hŷn Ysgol Bro Myrddin dan arweiniad Meinir Richards. Ymunodd pawb i ganu'r emyn *O Dduw, ein craig a'n noddfa* a chyflwynwyd y fendith gan y Parchedig Beti-Wyn James.

Trefnwyd y cyfarfod gan



Gymdeithas y Cymod a Chyngor Tref Caerfyrddin.

Da oedd gweld criw'n cynnal yr arfer o ddod at ei gilydd i nodi pa mor allweddol yw sicrhau heddych rhwng pobl mewn cyfnod mor gythryblus.



Yn Cyflwyno Zac Hayman o Awstralia

Bydd bachgen ifanc o Gapel Cymraeg Melbourne, sy'n paratoi ar gyfer y weinidogaeth yn treulio 2 wythnos yn ein gofalaeth ddechrau Tachwedd. Bydd yn cyrraedd ar ddydd Gwener, 2 Tachwedd ac yn aros gyda ni dros dri dydd Sul. Gobeithio y caiff pawb ohonoch o bob oed gyfle i gwrdd ag e ac estyn croeso cynnes iddo.

Bydd yn aros mewn gwesty lleol am y cyfnod, ac rydym wedi trefnu amserlen lawn ar ei gyfer ond pe hoffai unrhyw un ohonoch ei wahodd i swper, byddem yn gwerthfawrogi hynny'n fawr iawn

Dyma Zak i gyflwyno'i hunan:

Pwy yw ZaK? Dw i'n holi fy hunan ar nos Sul. Mewn ychydig o eiriau 'un o blant cariadus Duw', ond mae debyg y byddech yn dymuno gwybod mwy. Felly, dyma ni...



Cefais fy nghodi yn Fitzroy sydd 3.5 cilomedr y tu allan i Ddinas Melbourne yn Fictoria, Awstralia. Mae fy nheulu o dras Prydeinig a Morocaidd. Dechreuais i ymddiddori yn yr Eglwys pan oeddwn yn 15 oed drwy Grŵp Ieuencid Byddin yr



lachawdwriaeth Richmond. Rwy'n parhau i fynd yno heddiw.

Enillais Dystysgrif IV mewn ffurfiant Cristnogaeth a'r Weinidogaeth drwy'r Harvest Bible College ac rwyf ar hyn o bryd yn astudio ar gyfer gradd faglor ddwbl mewn Gweinidogaeth a Diwinyddiaeth drwy'r Brifysgol Ddiwinyddiaeth.

Rwy'n teimlo'n angerddol dros y canlynol:

Pobl, gofal bugeiliol, pobi a choginio, Duw, cyfartaledd rhyw yn yr eglwysi ac yn y gymdeithas ehangach, darllen, sgarffiau a gwasgodau, codi arian, mynd i'r theatr a chymryd rhan ynddi, cyfiawnder cymdeithasol, yr Eglwys, cerdded y prysglwyni a chestyll.

Dechreuais weithio i Eglwys Gymraeg Melbourne ym mis Gorffennaf 2017. Rwy'n byw ar y safle yn fflat yr Eglwys. Rwy'n cydgysylltu'r Eglwys lau a'r Grŵp Ieuenctid ochr yn ochr â thîm rhagorol o



gydarweinwyr. Rwyf wedi dysgu ac yn parhau i ddysgu gymaint gan yr ieuenctid a'r plant. Maen nhw'n ymestyn fy ffydd a'm sgiliau byw o wythnos i wythnos. Rwy'n mwynhau bron bob munud o'r profiad (ac eithrio'r gwaith gweinyddol).

Rwy'n teimlo'n ofnadwy o gyffrous ond ychydig yn nerfus o ddod i Gymru i gwrdd â chi i gyd. Rwy'n edrych ymlaen gymaint i wybod mwy am iaith a diwylliant a bwyd Cymru.

Hoffwn orffen drwy rannu un o'm hoff adnodau yn y Beibl, â chi, darn o'r ysgrythur sydd wedi fy nghalonogi drwy rai o'm hamseroedd mwyaf anodd. Mae'n symbyliad ac yn hwb go iawn.

Salm 37: 23-24 [beibl.net]

Mae'r Arglwydd yn sicrhau llwyddiant yr un sy'n byw i'w blesio. Bydd yn baglu weithiau, ond fydd e ddim yn syrthio ar ei wyneb, achos mae'r Arglwydd yn gafael yn ei law.

Wela i chi i gyd ar 4 Tachwedd.

Pob bendith

Zak



GWASANAETH PLANT A PHOBL IFANC Y PRIORDY

2 Medi 2018

BRAF OEDD gweld cymaint o bobl yn ymgynnull yn y Priordy ar Sul byrlymus cyntaf Mis Medi 2018. Roedd yn Sul arbennig iawn oherwydd i ni blethu'r oedfa â'r ras "*Tour of Britain*" a oedd yn gwibio heibio'r Capel y bore hwnnw. Roedd Beti-Wyn a nifer helaeth o'r aelodau wedi gwisgo'r lliw melyn i gefnogi'r fenter.



Wrth gyrraedd y Capel cawsom ein croesawu gan sain hudolus y band. Nikki oedd wrth y piano ac yn arwain gyda Philip, Elis, Sara, Gareth a Jayne yn chwarae offerynnau.

Croesawodd Beti Wyn bawb wedi gwyliau'r haf a dweud pa mor falch oedd hi i fod yn ôl Caleb oedd yn cychwyn yr oedfa drwy gyhoeddi'r emyn '*Af i mewn i byrth fy Nuw*'. (Caneuon Ffydd 52). Y cyhoeddwr oedd Chris Lloyd a roddodd fraslun i ni o ddigwyddiadau'r mis. Y Casglwyr oedd Jac, Megan, Anna a Gwilym. Mali Davies oedd yn arwain ni i'r ail emyn '*Deuwch gyda mi*'. (CFF 54).

Cafwyd cyflwyniad llafar diddorol tu hwnt gan Meg yn hel atgofion am yr amser a dreuliodd yn Awstralia'r Nadolig diwethaf. Neges y cyflwyniad oedd bod atgofion plentynod yn aros yn y cof am byth yn union fel y pethau a ddysgwn yn y Capel a'r Ysgol Sul.

Aeth Jac ati i ddweud fod Iesu wedi dysgu llawer o bethau i'w ddilynwyr. Roedd yn awyddus i'w ddisgyblion gofio'i eiriau am byth - fel '*Carwch eich gilydd fel yr wyf i wedi eich caru chi*', a '*Gofynnwch ac fe roddir i chi*'.



'*Chwiliwch ac fe gewch a Dewch ar fy ôl i*.' Aeth ymlaen i ofyn tybed faint ohonon ni, oedolion, sy'n cofio adnoddau yn y Beibl a ddysgon ni pan oedden ni'n blant? Gobeithio y bydd plant y Priordy heddiw'n dal i gofio geiriau Iesu pan fyddant wedi tyfu lan. Arweiniodd hyn at weddi gan Efa a Gwenan ar y *thema* *Diolch i ti, o Dad am y pethau rydym yn eu dysgu pan ydym yn blant*. Diolchwyd am gael mynd i lefydd newydd, cwrdd â phobl newydd. Gofynnwyd am help y tymor newydd hwn i greu atgofion newydd a fydd yn aros gyda ni am byth. Wedi Gweddi'r Arglwydd, daeth y band taro ymlaen i gyfeilio i '*Cariad Crist*' (CFF 412). Hyfryd oedd gweld cymaint o blant a phawb mor frwdfrydig.

Yn ei hanerchiad i'r plant gofynnodd Beti-Wyn iddynt ddyfalu ble buodd hi a'r teulu ar eu gwyliau. Cawsom sawl awgrym diddorol dros ben! Dywedodd ei bod

wedi teithio i Awstralia. Dangosodd fap ar y sgrîn a bu'r plant yn dyfalu lle roedd Awstralia. Hedfanodd yr holl ffordd draw i Awstralia a chymerodd hynny tua 23 awr i gyd. Teithiodd i Melbourne er mwyn gwneud llawer o bethau diddorol ynghyd â chwrdd â phlant Ysgol Sul Capel Cymraeg Melbourne. Dangosodd lun o Sara ac Elin yn treulio peth amser gyda'r plant. Awgrymodd y byddai'n syniad da i gadw mewn cysylltiad â rhai o blant yr Ysgol Sul yn Melbourne drwy Skype a dulliau eraill.



Tynnodd fwmerang o'i bag yn cynnwys symbolau'r Aborigini – un â phatrwm 'ffynhonnau dŵr' arno, un yn cynrychioli pob cam o daith bywyd. Bob tro'r byddwn yn taflu bwmerang mae'n dychwelyd yr un ffordd. Yn yr un modd, mae'r pethau rydyn ni'n eu dysgu pan ydyn ni'n blant yn yr Ysgol Sul yn dod yn ôl i ni pan fyddwn yn hŷn. .

Roedd Meg wedi dweud yn gynharach ei bod wedi gweld nifer o anifeiliaid yn Awstralia a dangosodd Alys, ei chwaer, gangarw i ni a brynodd yno. Wrth i ni ganu'r emyn '*Iesu Geidwad Bendigedig*' (Cff 393) dosbarthodd Beti-Wyn anifail arall o Awstralia i bob plentyn, sef coala bach i'w wisgo. Roedd pawb wedi cyffroi'n arw erbyn hyn.

Fe'n gwahoddwyd yn gynnes iawn gan ein Gweinidog, yn aelodau a chyfeillion, i dderbyn y Cymun ar ddechrau tymor newydd yn hanes ein heglwys. Cafodd ei chynorthwyo gyda'r elfennau gan Catrin Heledd, Chris Lloyd, Philip Jones ac Adrian Evans..

Fel y soniwyd eisioes roedd nhi'n fore cyffrous gan y byddai'r '*Tour of Britain*' ar ôl cychwyn ei thaith ym Mhen-bre, gyda lluo o feicwyr yn cynnwys Geraint Thomas, yn gwibio heibio'r Capel tua hanner awr wedi'r oedfa. Diolch i Alison Parsons a'i theulu a fu'n hynod o garedig yn darparu pabell a lluniaeth i ni ar ddiwedd yr oedfa a chyn y digwyddiad mawr.. Roedd rheiliau allanol y Capel wedi'u haddurno â baneri lliwgar ynghyd â beic bach gwyrdd i ddynodi'r achlysur. Roedd y palmant o flaen y Capel yn orlawn a phob un yn ei ogoniant yn disgwyl i'r beicwyr dasgu heibio, yn enwedig Geraint Thomas, ein harwr Hyfryd hefyd oedd gweld Beti-Wyn yn arwain y canu. Bydd hwn yn un o'r digwyddiadau bythgofiadwy yn hanes y Priordy gyda phawb o bob oed yn ymuno yn yr hwyl.



MAE'R DIOLCH y tro hwn i gymaint o bobl, yn gyntaf i Beti-Wyn am gynllunio'n drylwyr, i Nikki a'r band am eu gwaith graenus a hefyd i Alison Parsons, a Ffion a phawb arall a fu'n helpu gyda'r lluniaeth a'r trefniadau.

TAITH SEICLO PRYDAIN



Tudalen Ieuenctid@Priordy



Gŵyl Miri Medi

Diolch i bawb a ddaeth - cawsom hwyl rhyfeddol! Adroddiad a lluniau mewn man arall yn y papur hwn.

Gŵyl Mawl Medi

Diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth ac i Tomos Huw ac Osian am gyhoeddi emyn ar ran Y Priordy. Campus bois!



Helo, fy enw i yw Zak. Rwy'n gweithio gyda'r plant a'r bobl ifanc yn y Capel Cymraeg ym Melbourne, Awstralia (ond dw i ddim yn siarad Cymraeg yn anffodus!). Bu Beti-Wyn yn gweithio yn y Capel yn

Awstralia ym mis Gorffennaf, a nawr, rydw i'n dod draw atoch chi i'r Priordy am 2 wythnos ddechrau Tachwedd! Rwy'n edrych ymlaen yn fawr iawn at gwrdd â chi!

Dyddiadau'r mis

Hydref 7 - Cwrdd Diolchgarwch y plant

Hydref 14 - Ysgol Sul

Hydref 21 - Gwasanaeth yn Erw Hir.

PIP ar daith.

Hydref 28 - Dim Ysgol Sul

Hwyl am y tro, Beti-Wyn

BAND TARO'R PRIORDY



AGOR Y GAIR YN YSGOL Y DDERWEN



NOSON I DDATHLU CYHOEDDI


GWRTHWYNEBWYR
CYDWYBODOL
YN Y RHYFEL MAWR

yng nghwni'r awdur
ALED EURIG

Capel y Priordy

Nos Fercher 17 Hydref 2018 - 18.30 ymlaen

Croeso cynnes i bawb. Darperir lluniaeth ysgafn



GWAHODDIAD

Pleser yw eich croesawu i Noson Agored yn **Festri Heol Awst, Nos Iau, 11 Hydref am 7 o'r gloch**, pan fydd **Dr. Rhiannon Ifans a Trefor Pugh** yn siarad am **Draddodiad a Charolau Plygain**. Byddant hefyd yn canu **Carolau Plygain**.

Croeso cynnes i bawb, ac edrychwn ymlaen i gael eich cwmni.

Olga Williams

Ysgrifennydd

Cymdeithas Ddiwylliadol Heol Awst a Smyrna

LLYFRAU LLAFAR

LANSIO LLYFR
STRAEON GRAV
gan
RHYS MEIRION

Nos Wener 9 Tachwedd 2018

Yn dilyn cynhelir


CYNGERDD

gan

RHYS MEIRION ALED WYN DAVIES ELIN FFLUR

THEATR IEUENCTID MENTER CWM GWENDRAETH AC ELLI

yn Neuadd Pontyberem



Tocynnau: £15 Plant: £5 (Swyddfa Menter / Neuadd Pontyberem / Siop y Pentan / Swyddfa Llyfrau Llafar / Mansel Thomas neu unrhyw aelod o'r Pwyllgor)

Noddir y nosn gan Castell Howell

David Lewis...

PORTIWGAL – GWLAD MÔR A MYNYDD

CANOLDIR PORTIWGAL oedd y dewis eleni ar gyfer taith lenyddol Abertawe a'r cylch. Heini Gruffudd oedd yn ein harwain ni unwaith eto a fe oedd yn gyfrifol am drefnu'r daith gyda'i drylwyrdd arferol. Porto a Coimbra oedd y ddwy ddinas a ddewiswyd fel canolfannau i'r daith, ill dwy'n hynafol iawn ac yn hynod o ddiddorol o ran hanes a phensaernïaeth arbennig iawn.



Porto

Porto yw'r ail ddinas fwyaf ym Mhortiwgal. Mae'n hen ddinas a pherthyn iddi ysblander Ewropeaidd gyda chymysgedd o adeiladau baroc, neoglasurol a rhai belle époque. Mae rhai'n llai llwyrchus eu golwg nag eraill a dyna beth o'u swyn, mae'n debyg. Mae yna strydoedd culion, rhiwiau serth a heolydd coblog diri. Dinas waith yw Porto. Mae'n ganolfan fasnach bort ac mae hen longau cludo casgenni i'w gweld ar afon Douro. Dinas chwarae yw hi hefyd a'i thîm pêl-droed Porto'n enwog. O Braga y daw Carlos Carvalhai, cyn-reolwr Abertawe, ond chwaraeodd am un tymor i dîm Porto.

Mae dinas Porto wedi'i hadeiladu ar y llethrau serth gogleddol uwchben afon Douro, gan ymestyn tua Môr Iwerydd i'r gorllewin. Ar lan yr afon mae ardal Ribeira lle mae digon o fwytai. Mae yna strydoedd troelloog a chul, grisiau di-ben-draw ac adeiladau hanesyddol. Yr ochr arall mae Gaia lle mae warysau a busnesau Porto'n bennaf. Gwlad Gatholig yw Portiwgaol ac mae yna gyfoeth o eglwysi hardd ar draws y wlad. Cawsom gyfle i ymweld â dwy o'r rhain ym Mhorto:



Igredja Do Carmo a Carmelitas

Yn ymyl yr eglwys mae eglwys arall. Rhwng y ddwy eglwys mae tŷ bychan, er mwyn cydymffurfio â hen gyfraith a fynnai na ddylai dwy eglwys rannu'r un mur.

Sé – Yr Eglwys Gadeririol

Saif yr eglwys hon ar y graig uwchben y ddinas a'r afon. Cafodd ei chodi yn y 12 ganrif.



Vila Nova de Gaia

Mae Ponte de Dom Luis 1, un o bontydd enwog Porto, yn croesi i ardal Via Nova de Gaia y tu draw i afon Duoro lle mae'r warysau port a gwin. Mae cwmni Sandeman mewn adeilad sylweddol ar lan yr afon. Cawsom ein tywys drwy'r seler gan flasu wedyn dri math o win – gwin, rhuddem a llwydfelyn. Cafodd brand gwinoedd Port Sandeman ei gychwyn yn 1790. Dyn o Perth oedd George Sandeman a sefydlodd y cwmni gyda £300. Arhosodd y teulu nes i gwmni diodydd Seagram ei brynu ym 1979 a'i werthu ymhellach wedyn. Mae disgynnydd i'r sefydlydd ar fwrdd rheoli Sogrape Vinhos, y perchnogion heddiw. Maen nhw'n cynhyrchu gwinoedd port, sieiri, brandi a gwinoedd Madeira. Ar ôl ymweliad â Sandeman a blasu'r gwinoedd hyfryd oedd mynd yn ôl gyda'r afon i'n gwesty, sef Bona Vista ag iddo lolfa a balconi'n edrych dro y môr – lle hyfryd I weld y machlud.

Coimbra

Wedi cyrraedd ein gwesty, sef yr Astoria – hen westy'n llawn swyn – roeddem yn barod i ymweld â'r ddinas. Hen dref brifysgol yw Colombria a'i hadeiladau'n dringo bryn serth uwchben yr afon Mondego. Mae yma nifer o eglwysi hardd, strydoedd siopa'n llawn siopau bach a chaffes, sgwariau prydyferth a bwytai. Cafodd brenhinoedd eu geni yma a'u claddu a dyma hen briffddinas Portiwgal.. Ymhlith y mannau diddorol a welsom yno roedd y canlynol:



Universidade de Coimbra

**Y brifysgol ail hynaf yn y byd.
Cafodd ei hagor ym 1290 – yn
Lisbon ond ei throsglwyddo i
Colombria ym 1537**

Museu Nacional Machado de Castro

**Yma gwelir arddangosfeydd o
archaeoleg Rufeinig a chyfoeth o
wrthrychau'r o'r 14g i'r 18g**



Tomar

Cawsom gyfle i ymweld â nifer o drefi gan gynnwys eglwysi a mynachlogydd ond erys un dref yn y cof am sawl rheswm, Tref fach yw Tomar ond bu ganddi ran fawr yn hanes Portiwgal gyda chysylltiadau â'r Marchogion Temlog. Yn y 12g cafodd tir ei roi i Farchogion Teml Jeriwsalem gan y Frenhines Dona Teresa a'i mab Don Alfonso

Henriques. Cychwynnodd Guaidim Pais, Meistr Urdd y Deml, gastell yma a thyfodd ar hyd y blynnyddoedd. Nod y castell a'r marchogion oedd amddiffyn Portiwgal rhag ymosodiadau ond cafodd y Temlwyr eu gwahardd yn Ewrop a daeth yr Urdd i ben. Roedd brenhinoedd Portiwgal, fodd bynnag, yn dal i'w cefnogi ac ym 1319 llwyddodd Don Dinis i gael y Cristnogion i sefydlu Urdd newydd, Urdd Crist, a barhaodd waith y Temlwyr. Gweithiodd yr Urdd gyda Harri'r Llywiwr yn y 15g a



defnyddiodd ei gyfoeth i gefnogi'r teithiau darganfod a mynd â dylanwad Portiwgal a Christnogaeth i sawl rhan o'r byd.

CAWSOM doreth o brofiadau ym Mhortiwgal a daethom adref gyda lluo o atgofion hyfryd am y wlad a fu'n gyfeillgar iawn â Phrydain dros y canrifoedd. Byddem yn eich annog i deithio yno a phrofi'r cyfeillgarwch a geir yn y wlad hyfryd hon sydd, ar lawer agwedd, yn debyg i Gymru.



CYNGERDD DATHLU 60 MLYNEDD

CÔR MEIBION CAERFYRDDIN

Theatr y Lyric Caerfyrddin

Nos Sadwrn 13 Hydref 2018 am 7



Artistiaid

Jessica Robinson
Soprano

Trystan Llŷr Griffiths
Tenor

Corau Meibion
Caerfyrddin, Porth Tywyn, Mynydd Mawr, Dyffryn Tywi,
Dyffryn Aman

Wyn Maskell
Arweinydd

Heather Williams
Cyfeilydd

Garry Owen
Arweinydd y Noson

Brian Jones Castell Howell
Llywydd y Noson

Tocynnau - £12 - Theatr y Lyric neu Dylan Jones

DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

IRENE WILLIAMS

HENRY A BRONWEN WILKINS

DAVID A HEFINA LLOYD

ac

IRIS OWEN


at gostau cyhoeddi Papur Priordy y mis hwn

PERSONOL

Ni fu'r mis diwethaf gyda'r gorau i ni fel teulu. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd am eich consŷrn, eich graslonrwydd a'ch cefnogaeth. Rydym yn eu gwerthfawrogi'n fwy nag y gall geiriau eu mynegi.

Beti-Wyn

BLYCHAU YN Y CYNTEDD



**COFIWCH AM Y BLWCH STAMPIAU A'R
BLWCH CETRYS
YN Y CYNTEDD**

BORE COFFI MACMILLAN

Llongyfarchiadau mawr unwaith eto eleni i Alison Parsons a'i thîm ar lwyddiant y Bore Coffi arbennig a gynhaliwyd yn Festri'r Priordy ar Ddydd Gwener, 28 Medi 2018. Codwyd £1050 eisoes gydag addewid o ragor i ddod! Ardderchog!



AR Y WE: www.priordy.org (yn cynnwys Papur Priordy)

TUDALEN BLAEN

Rheswm Olive Lloyd dros ddewis 'Arglwydd Iesu, dysg im gerdded'



Mae geiriau **Elfed** yn adnabyddus i ni i gyd. Rwyf wedi'u canu lawer gwaith, gan ddechrau pan oeddwn yn blentyn yn mynychu oedfaon ac Ysgol Sul **Capel Rhydyceisiad**, Llangynnin (ardal hyfryd fy magwraeth).



Mae pob pennill yr emyn wedi cael argraff ddofn arnaf wrth eu darllen neu'u canu. Maen nhw wedi bod yn gymorth i gadarnhau'r ffydd a ddysgais gyntaf gan fy rhieni.

Pwysig yw byw yn ôl ein ffydd ac rwy'n gobeithio fy mod wedi gwneud hynny trwy gydol fy mywyd.



CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN CYRDDAU CHWARTER 2018-19 AR DDYDD IAU YM MHOB ACHOS



29 Tachwedd 2018 (10.30am a 1.30pm)	Trinity, Llanboidy
14 Mawrth 2019, (10.30am a 1.30pm)	Nebo Llanpumsaint
9 Mai 2019 (4.00pm a 7.00pm)	Y Priordy
12 Medi 2019 (4.00 a 7.00pm)	Henllan Amgoed
8 Tachwedd 2019 (10.30am a 1.30pm)	Hermon

BORE COFFI MACMILLAN



Wynne Jenkins yn herio
pawb o bob oedran...



CWIS ADAR AC ANIFEILIAID



1	Mae'r aderyn yma'n byw mewn pentref ger Ysgol Bro Myrddin	
2	Mae'r anifail yma'n byw yn y pentref nesaf at Gapel Dewi	
3	Mae'r anifail yma'n byw i lawr wrth y mart a chae'r sioeau	
4	Mae'r anifail yma'n byw yn yr un pentref a William Morgan (Cyfieithydd y Beibl)	
5	Mae'r anifail yma'n byw yn y pentref nesaf at erddi hardd Aberglasne	



6	Mae'r anifail yma'n byw ar bob math o bethau brwnt ac yn cario afiechydon	
7	Mae'r adar yma'n nythu mewn llwyn ar fferm ger Peniel	
8	Mae'r adar yma'n byw mewn dinas lle mae'r tim wedi colli'i le yn Uwch Gynghrair Pêl-droed Lloegr	
9	Mae'r anifail yma'n un slei ac yn byw mewn pentref o'r enw Cwrt y _____	
10	Mae'r aderyn yma'n byw yn Sir Benfro a galwyd argae ddŵr ar ei ôl	

ATEBION YN Y RHIFYN NESAF

GŴYL MIRI MEDI

Cafwyd prynhawn bendigedig ar gaeau Clwb Rygbi'r Cwins yn Abergwili ar Ddydd Sadwrn 15 Medi 2018. Hyfryd oedd cael dechrau mor dda i deulu'r ofalaeth ar gychwyn tymor newydd yn ein hanes.

Cafwyd cystadlu brwd - o'r plant i'r oedolion - a phawb yn cael hwyl. Roedd blas arbennig hefyd ar y barbeciw a chroeso da i'r diodydd ysgafn a'r paneidiau.

Golygodd y prynhawn hwn lawer o waith paratoi ymlaen llaw ac ar y diwrnod ei hunan. Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n helpu ym mhob rhyw fodd ac yn arbennig i Lyn Jones (Bancyfelin) a'i Is-bwyllgor. I goroni diwrnod da gwnaethpwyd elw bach hefyd – i'w rannu rhwng y tair eglwys!



Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd offer ail law a'r gyfer yr elusen *Workaid* yn ystod mis Medi. Bydd rhagor o newyddion am hyn yn ein rhifyn nesaf.

GŴYL MAWL MEDI

Mae Meinir Lloyd wedi bod yn aelod o bwyllgor yr ŵyl ers tair blynedd a hefyd yn gadeirydd am yr un cyfnod, Rydym yn ddiolchgar iawn iddi am ei holl waith.

Hoffai weld rhywun arall yn cynrychioli'r Priordy ar y pwyllgor o hyn ymlaen. Mae'r pwyllgor yn cwrdd rhyw deirgwaith y flwyddyn. Mae Thelma Evans o'r Priordy nawr yn Drysorydd ac yn un o'r swyddogion ond mae angen cynrychiolydd arall arnom ar y pwyllgor.

Rydym felly'n estyn gwahoddiad i rywun ein cynrychioli ar y pwyllgor. Croeso i chi gysylltu â Meinir mewn cyswllt â hyn ac i dderbyn unrhyw wybodaeth bellach os ydych yn dymuno.

Diolch yn fawr iawn/

DIOLCHGARWCH - 2018

Y PRIORDY	
Bore Sul, 7 Hydref am 10	Oedfa Blant a Phobl Ifanc am 10 gyda Beti-Wyn
P'nawn Sul 7 Hydref am 5,	Oedfa Gymun gyda Beti-Wyn ac Arfon Jones (beibl.net) Swper i ddilyn <i>Rhoddion y Plant at Fanc Bwyd Caerfyrddin Casgliad rhydd at Apêl Madagasgar – Undeb yr Annibynwyr Cymraeg</i>
CANA	
Nos Iau, 11 Hydref am 7	Oedfa Bregethu Y Parchedig Guto Prys ap Gwynfor Swper i ddilyn
Dydd Sul, 14 Hydref am 1.30	Cwrdd Diolchgarwch y Plant a Chymun gyda'r Gweinidog
BANCYFELIN	
Dydd Sul, 14 Hydref am 3	Cwrdd Diolchgarwch y Plant a Chymun gyda'r Gweinidog
Nos Iau, 18 Hydref am 7	Oedfa Bregethu Y Canon Eileen Davies Llanllwni Swper i ddilyn
CARTREF PLAS-Y-DDERWEN	
Bore Gwener, 29 Hydref am 11	Gwasanaeth Diolchgarwch yng nghwmni'n Gweinidog

Cinio Dydd Sul yr Ofalaeth

Dydd Sul, 21 Hydref 2018

yn

Ngwesty'r Llwyn Iorwg, Caerfyrddin
am 12.30 o'r gloch yn brydlon.

Pris: £18 y pen

***Enwau ar y daflen yn y cyntedd cyn gynted â phosib os
gwelwch yn dda. Ymholiadau pellach: Beti-Wyn***





'Agor y Gair'



Cyfres o Astudiaethau Beiblaidd Cymraeg yng Nghaerfyrddin

Boreau Mercher 3,10,17,24 Hydref 2018 - 11.00 tan 12.00

Canolfan 'Yr Atom', Stryd y Brenin, Caerfyrddin

Arweinwyr

Y Parchedig Peter Cutts a'r Parchedig Beti-Wyn James

Croeso cynnes iawn i bawb

CYMANFA GAROLAU

Nos Sadwrn, 15 Rhagfyr am 7 yn Y Priordy

Côr Llanpumsaint Parti Harmoni ac eraill

Gwyn Nicholas

Iwan Evans

Arweinydd y Gân

Organydd

Beti-Wyn

Dr Hefin Jones (Caerdydd)

Cyflwynydd

--+

Mynediad am ddim, gwneir casgliad yn
ystod y noson at elusen **Amser Justin**

Time er cof am Alison, merch Ann Griffiths,
un o'n ffyddloniaid yn y Priordy



CYMORTH CRISTNOGOL

BORE COFFI

Dydd Sadwrn – 3 Tachwedd 2018

10 hyd 12

Capel y Bedyddwyr Saesneg, Caerfyrddin

Cardiau Nadolig ar gael



DRWS AGORED

FESTRI'R PRIORDY

BORE IAU 18 HYDREF 2018

Paned a Bisgedi am 10.30 / Myfyrdod Byr am 11

Croeso cynnes i bawb o bob capel ac eglwys





DYLETSWYDDAU GOFALWR / GWRESOGWYR Y MIS



Hydref		Tachwedd	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
Philip Jones	Gwynfor Davies	Philip Jones	Gwynfor Davies



BLODAU



Hydref	7	Betsan James	Tachwedd	4	Catrin Heledd
	14			11	
	21	Mari Jenkins		18	Gloria Evans
	28			25	



PARATOI'R BWRDD CYMUN



Hydref	7	Hwyr	Alison Parsons a Ffion Parsons
Tachwedd	4	Bore	Mari Jenkins a Thelma Evans



YMWELWYR



Medi / Hydref	Thelma Evans a June Thomas, Eira Phillips ac Eira Jenkins
Tachwedd / Rhagfyr	Gweinidog (Anrhegion Nadolig)



DARLLENWYR



Hydref	7		Tachwedd	4	
	14	Meinir Jones		11	Llinos Jones
	21	Lleucu Edwards		18	June Thomas
	28	Wyn Tegryn Evans		25	Nansi Hayes



CYHOEDDWYR



Hydref	Adrian Evans	Tachwedd	Wyn Tegryn Evans
--------	--------------	----------	------------------

Y TYST

50c y rhifyn! Cysyllter â Sulwyn Thomas





SONION ni yn ein rhifyn diweddaf am enghreifftiau o gyd-ddigwyddiadau diddorol, fel wyrion yn cael eu geni ar ddiwrnod pen-blwydd un o'r tad-cuon. Wel, clywsom am gyd-ddigwyddiad arall! Ar 16 Awst y ganed Tim Hayes, un o'n diaconiaid, ar yr un ddiwrnod roedd ei rieni, Des a Nansi Hayes, yn dathlu unfed ar bymtheg pen-blwydd eu priodas! Diddorol dros ben! Tybed a oes rhagor o gyd-ddigwyddiadau tebyg eto ymhlith aelodau'r capel?

Anfonwn ein cofion cynhesaf at y rhai sydd mewn ysbyty neu sydd newydd fod, a chael triniaeth, sef, David Baston, Tina Charles, Siân Dalis Davies, Janet Davies a Lisa Davies (PIP). Dymunwn yn dda iddynt a phawb arall sy'n anhwylyd y dyddiau hyn.

Bu'r Dr Huw Michael yn brysur ar y cyfryngau. Ar y **Post**

Cyntaf bu'n trafod yr uchafbris nwy a thrydan a fydd yn dod i rym erbyn diwedd y flwyddyn yn dilyn y mesur a ddaeth yn gyfraith ym mis Gorffennaf i alw ar OFGEM (corff rheoleiddio'r farchnad nwy a thrydan) i weithredu hyn. Ar



ddiwrnod arall ar yr un rhaglen bu'n ymateb i'r bwriad i drosglwyddo 300,000 tonnelli o fwd o wely'r môr ger Hinckley Point yng Ngwlad yr Haf i safle yn y môr tua milltir o Fae Caerdydd. A bu Peter Hughes Griffiths yn llais ar y cyfryngau mewn perthynas â Thaith Seiclo Prydain yn ymweld â Sir Gar am y tro cyntaf. Yna, Elinor Wyn oedd bardd preswyl **Radio Cymru** ym mis Medi, Ac yn y **Journal** roedd llun o Gôr Meibion Caerfyrddin, yn cynnwys rhai o'r Priorddy, yn brysur yn paratoi ar gyfer y dathlu mawr yn ddiweddarach y mis hwn!

MAE Sulwyn Thomas wedi ymddeol fel Cadeirydd

Grŵp Cefnogi Plant Dewi Caerfyrddin ar ôl 15 o

flynyddoedd o wasanaeth hynod o ffrwythlon a

gwerthfawr. Un o lwyddiannau mawr Sulwyn yn ystod

ei gadeiryddiaeth fu bod yn sbardun i droi Bore Coffi Plant

Dewi'n ddigwyddiad cydenwadol, er enghraifft, drwy gael capeli'r



dref yn eu tro i fod yn gyfrifol am stondin. Mae'n dda clywed y bydd yn parhau fel Llysgennad gyda'r mudiad.

**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Tachwedd i'n
Gweinidog neu Tina Charles**

CYMDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad â Rhian a Dennis Jones ar golli tad Rhian, sef y diweddar Meurig Voyle, Dinbych, ar 3 Medi 2018. Yn wreiddiol o Landdarog, bu'n berson amlwg iawn gydag Undeb Amaethwyr Cymru ac roedd yn un o aelodau gwreiddiol Pwyllgor Amddiffyn Llangyndeyrn. Meddylwn am y teulu i gyd yn eu colled a'u hiraeth. Cynrychiolwyd y Priorddy yn yr angladd gan ein Gweinidog ac eraill.

ER GWYBODAETH

TREFN NEWYDD CYTŪN CAERFYRDDIN

Mae CYTŪN Caerfyrddin wedi newid y ffordd mae'n gweithredu. Yn hytrach na chynnal pwyllgor mawr canolog, mae wedi mabwysiadu cynllun o weithio drwy bwyllgorau bach a grwpiau o bobl yn trefnu'r gwahanol ddigwyddiadau a gweithgareddau sydd yn cael eu cefnogi a'u hybu ganddo. Y bwriad yw i un person o bob grŵp fod yn ddolen gyswllt er lledaenu gwybodaeth i eraill



CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY

Nos Fercher, 14 Tachwedd 2018 am 7 yn y Ffestri

*Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch
wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd
os gwelwch yn dda*

DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn. Tim a Rebeca Hayes a Tudur Dylan Jones, am y lluniau'r mis hwn





Y SULLIADUR



Hydref	7	<i>Bore</i> <i>Hwyr</i>	Cwrdd Diolchgarwch y Plant a'r Bobl ifainc gyda'n Gweinidog Cwrdd Pregethu a Swper Diolchgarwch gydag Arfon Jones, Caerdydd, a'n Gweinidog.	Cymun
	14	<i>Bore</i>	Ein Gweinidog	
	21	<i>Bore</i> <i>Pnawn</i>	Ein Gweinidog <i>Cwrdd Eglwys wedi'r Oedfa i drafod mater yn ymwneud â'r Ddeddf Diogelu Data a'r Adroddiad blynyddol</i> Cinio Dydd Sul yr Ofalaeth yng Ngwesty'r Llwyn lorwg am 12.30. Manylion y tu mewn.	
	28	<i>Bore</i> <i>Pnawn</i>	Y Parchedig Carys Ann Yn y prynhawn am 2 i'r Ofalaeth yng Nghana: Y Parchedig Carys Ann	

Tachwedd	4	<i>Bore</i> <i>Hwyr</i>	Ein Gweinidog Ein Gweinidog	Cymun
	11	<i>Bore</i>	Ein Gweinidog	
	18	<i>Bore</i>	Ein Gweinidog	
	25	<i>Bore</i>	Y Parchedig Guto Prys ap Gwynfor Yn y prynhawn am 2 i'r Ofalaeth yng Nghana: Y Parchedig Guto Prys ap Gwynfor	

CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC							
✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant							
Hydrefi				Tachwedd			
7	14	21	28	4	11	18	25
CP	✓	Erw Hir PIP ar Daith	-	✓	✓ PIP	✓ PIP	✓ PIP

Y GYMDEITHAS
Nos Lun 5 Tachwedd 2018 Noson yng nghwmni Alun Wyn Bevan Cana a Bancyfelin yn ymuno â ni